

# **Abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain ar gyfer nodylau thyroid anfalaen**

Mehefin 2016

## **Beth mae NICE wedi'i ddweud?**

Mae [abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain](#) ar gyfer [nodylau thyroid anfalaen](#) yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG.

Cyn defnyddio'r driniaeth hon, rhaid profi'r nodwl thyroid er mwyn sicrhau ei fod yn anfalaen (nid yn ganseraidd). Defnyddir nodwydd denau i gymryd sampl o feinwe o'r nodwl er mwyn chwilio am gelloedd canser. Ni ddylid cynnal abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain os yw'r nodwl yn ganseraidd.

## ***Beth mae hyn yn ei olygu i mi?***

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

## **Y cyflwr**

Mae chwarren y thyroid yn y gwddf. Mae'n cynhyrchu hormonau thyroid sy'n effeithio ar dwf a metaboledd y corff. Lymphiau yn chwarren y thyroid yw nodylau thyroid ac nid ydynt fel arfer yn ganseraidd (maent yn anfalaen). Mae'r nodylau weithiau yn achosi symptomau sy'n gysylltiedig â chwarren thyroid orweithgar (hyperthyroidedd) fel gorbryder, colli pwysau, diffyg anadl, blinder a phroblemau â'r llygaid.

Gall fod angen trin nodylau thyroid anfalaen os ydynt yn achosi symptomau neu broblemau cosmetig. Mae'r driniaeth yn cynnwys cyffuriau i leihau faint o hormonau thyroid sy'n cael eu cynhyrchu, neu lawdriniaeth.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio [abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain](#) fel opsiwn triniaeth arall.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## **Y driniaeth**

Caiff y driniaeth hon ei chynnal fel arfer fel triniaeth i gleifion allanol, o dan anesthetig lleol. Caiff stiliwr tenau ei osod yn y nodwl gan ddefnyddio arweiniad gan ddelweddau. Mae'r stiliwr wedi'i gysylltu â dyfais sy'n anfon curiadau o ynni gwres radioamledd er mwyn dinistrio'r feinwe yn y nodwl.

Y nod wrth ddefnyddio abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain yw defnyddio toriadau llai na'r rhai a ddefnyddir yn ystod llawdriniaeth 'agored', sy'n golygu llai o boen a chreithio.

## **Buddiannau a risgiau**

Roedd y dystiolaeth a ystyriwyd gan NICE ar gyfer abladiad radioamledd drwy'r croen dan arweiniad delweddau uwchsain er mwyn trin nodylau thyroid yn dangos bod y driniaeth yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG.

Roedd y saith astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys tua 2,500 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y buddiannau canlynol:

- roedd y nodylau yn llai
- roedd rhai cleifion wedi gallu cymryd llai o gyffuriau ar gyfer chwarren thyroid orweithgar (hyperthyroidedd) neu roi'r gorau i'w cymryd yn gyfan gwbl
- roedd yr effaith gosmetig yn well ac roedd symptomau'r rhan fwyaf o bobl yn llai difrifol ar ôl y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau'n cynnwys y canlynol:

- gwaedu yn ystod y driniaeth, gan achosi cleisiau ymhlith rhai pobl
- nodwl yn torri, hyd at sawl wythnos ar ôl y driniaeth, a oedd yn golygu triniaeth bellach yn yr ysbyty. Cynhaliwyd llawdriniaeth i dynnu rhan o'r thyroid yn achos un claf

- effaith ar y llais yn union ar ôl y driniaeth. Roedd llais y rhan fwyaf o gleifion wedi gwella dros amser
- niwed i'r nerf sy'n mynd i'r llaw yn achos 1 claf gan achosi diffyg teimlad a llai o deimlad yn y bysedd, ond gwelwyd gwelliant
- llosgiadau i'r croen
- Roedd gan un unigolyn thyroid tanweithredol parhaol (hypothyroidedd) ar ôl y driniaeth.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y [canllawiau](#). Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

### **Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r buddiannau posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y buddiannau hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

### **Ynglŷn â'r wybodaeth hon**

Mae [canllawiau ymyriadau](#) NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1988-8